# Y PARWYD

Hyd: **7.4km - 4.6m**




**Cyfarwyddiadau**

Parcio yn maes parcio'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol uwchben Porth Meudwy (SH 162 253). (O ffordd Aberdaron i Uwchmynydd dylid dilyn y ffordd sy'n arwain i gyfeiriad maes carafanau Tir Glyn). Neu gellir cerdded i Borth Meudwy ar hyd Llwybr Arfordir Llŷn o Aberdaron

- Cerdded i lawr y llwybr i Borth Meudwy o'r maes parcio
- Dringo'r allt tua'r de ar Lwybr Arfordir Llŷn a dilyn hwnnw nes bron a chyrraedd Craig Cwlwm (creigiau ar ben yr allt)
- Dilyn Llwybr Arfordir Llŷn i ffwrdd oddi wrth y môr, croesi caeau a dod allan i'r ffordd fawr. (dwy fferm Bodermid gerllaw)
- Troi i'r chwith ac ymlaen heibio i adeilad cerrig di-do (Gwaith Trwyn Dwmi) yn y cae dros y ffordd. (SH 158251)
- Parhau i ben draw'r ffordd a thrwy giat ger Môr Awelon (SH 158248)
- Parhau eto ymlaen at gamfa. (SH 154 246) ger Grepach.
  *Yma gellir dewis mynd dros y gamfa a cherdded i Ben y Cil (SH 157240) (Ymdd. Gen.) lle ceir golygfeydd o Swnt Enlli a Bae Ceredigion a'r Parwyd - ar y dde - gyda'i elltydd serth iawn. Yna dychwelyd at gamfa.*
- Mae'r llwybr yn dilyn yr arfordir trwy fynd trwy giat a cherdded i dir yr Ymdd. Gen. - Mynydd Bychestyn.(SH 151244)
- Parhau ar y llwybr, heibio corlan, nes dod at gychwyn ffordd dar yn arwain i lawr i'r dde. (SH 149248) (I'r chwith gwelir dau dyddyn ac Ynys Enlli tu hwnt iddynt)
- Dilyn y ffordd dar nes dod i arwydd Llwybr Arfordir Llŷn yn arwain i'r chwith.
- Ym mhen draw'r llwybr (ger tŷ Mawr) (SH 144 256) byddwch yn ymuno a ffordd dar Uwchmynydd i Fynydd Mawr. Dilyn y ffordd honno i'r dde i gyfeiriad Uwchmynydd ac ymlaen nes cyrraedd Pen Bryn Bach (bwyty) (SH 150 258). Yno mae llwybr i'r gorllewin sy'n arwain i lon dar arall.
- Dal i'r dde ar y ffordd honno am ychydig ac i lwybr ar y chwith sy'n mynd ar ben clawdd.
- Daw'r llwybr pen clawdd allan ger Tir Glyn. (SH 157257)
- Dilyn y ffordd da i'r chwith nes dychwelyd at y maes parcio. (Ychydig ymlaen ar y chwith mae fferm Cwrt.)

**Pethau i'w gweld ar y daith:**




**1 - Mynydd Mawr a Mynydd Gwyddel**

Dyma'r 'mynyddoedd' yn mhen eithaf Llŷn gyda Ogof y Gath yn rhedeg rhyngddynt i lawr i Swnt Enlli. Yno yn creigiau mae Ffynnon Fair, yn enwog o Oes y Seintiau, ac yn hynod am fod dŵr croyw ynddi er fod yn môr yn golchi drosti ar lanw. Ar y gwastad lle mae'r llwybr yn cychwyn i lawr i'r ffynnon mae olion petryal Capel Mair. Ceir y cofnod cynharaf ohono dyddiedig 1748 ar fap gan Lewis Morris.

Mae ffordd goncrit a godwyd amser yr Ail Ryfel Byd yn rhedeg i gopa Mynydd Mawr. Ar y copa ceir arddangosfa gan yr Ymddirieolaeth Genedlaethol.

Mae'r gerdd olaf gyfansoddodd Cynan wedi ei lleoli ar Fynydd Mawr a cheir disgrifiad hudolus o'r golygfeydd ac yn arbennig sancteiddrwydd Ynys Enlli. Dyma'r fan gorau i weld Enlli.



**2 - Y Parwyd**

Dyma ran o'r arfordir gyda'r gelltydd serthaf yn Llŷn. Rydym yn fwy cyfarwydd â'r enw yn ei ffurf luosog, parwydydd, ond a ddefnyddir yn gyffredin yma ac ar Drwyn Cilan am graig serth iawn.

Yn 1794 priodwyd dau o'r ardal ac aethant i fyw Dŷ'n Lôn, Uwchmynydd, gerllaw'r Parwyd. Ymhen rhai blynyddoedd blinwyd hwy gan ddrychiolaeth, ond pan ddarllenid darn o'r Ysgrythur byddai'r ddrychiolaeth yn cilio i gyfeiriad y Parwyd ac yno y byddai'n hofran cyn diflannu. Canlyniad hyn fu i'r pâr ifanc ymadael a mynd i fyw i Rhwng Ddwyborth, plwyf Bodferin. Yn yr ardal, yn 1801, gollyngwyd peilot o long ar greigiau Grepach.

Roedd yn feddw iawn ond rhywsut llwyddodd i gyrraedd pen y clogwyn a mynd i gysgodi mewn corlan ddefaid.

*Mwy …*

## 2 - Y Parwyd

Yn y bore bach, a hynny cyn sobri, ceisiodd anelu am ei gartref ond aeth i'r cyfeiriad anghywir a diflannodd dros y dibyn ac i'r môr. Dywed Myrddin Fardd mai'r enw addas ar y fan hon yn ei amser ef oedd Pared Gallt Uffern 'am ei bod megys yn erchwyn i'r cyfyngfor tonog ac enbydus y sy rhyngddi ag Ynys Enlli'



## 3 - Porth Meudwy

Dyma un o borthladdoedd bach enwocaf Llŷn, yn fwyaf enwog bellach fel man cychwyn i Ynys Enlli. Cyfeirir ato yn 1524 fel Porth Muduy. Ond roedd yn fan prysur iawn cyn hynny gan mai oddi yma y cychwynnai'r pererinion ar eu taith ar draws y Swnt i Enlli.Gerllaw mae ffermydd yn dwyn yr enw Bodermid. Yr un elfen sydd yn hwn â'r ffurf Saesneg hermit, meudwy yn Gymraeg.


Ymwelodd Thomas Pennant â Phorth Meudwy yn nechrau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg a disgrifiodd y man fel 'lle cyfleus iawn i bysgotwyr, a noddfa ddiogel rhag stormydd'



## 4 - Swnt Enlli

Yr hen enw ar y Swnt yw Ffrydiau Caswennan.

Mae trai a llanw'r culfor hwn rhwng Ynys Enlli a'r Tir Mawr yn dywyllodrys iawn a dim ond y mwyaf profiadol fydd yn mentro drwyddo. Gweli craig ochr y Tir Mawr i'r Swnt a elwir yn Faen Du.



## 5 - Nant yr Hen Lyn Uchaf

Chwarel sets oedd hon ym Mhorth y Pistyll ar Drwyn Dwmi. Er y bu cynlluniau uchelgeisiol ar y gweill, fel codi tai a chapel i'r gweithwyr, ni chafwyd llwyddiant.

Mae muriau cadarn adeilad y cychwynnwyd ei godi mewn perthynas â'r gwaith i'w gweld heddiw ar ochr y ffordd rhwng Bodermid a Phenycil. Adeiladwyd glanfa yn y môr hefyd ond nis defnyddiwyd. Cafwyd damwain angheuol yno yn y tridegau pan laddwyd Robert Evans, Dynfra, Aberdaron.



## 6 - Ynys Enlli

Un o ynysoedd enwocaf Cymru yn arbennig felly am y credir fod 20,000 o saint wedi'u claddu yno. Roedd yn ynys sanctaidd o'r cychwyn cyntaf un, a chredid fod tair pererindod i Enlli yn gyfystyr ac un i Rufain. Yn y 6ed ganrif O.C. sefydlodd Cadfan, mynach o Lydaw yr abaty a bu'r ynys yn gyrchfan pereinion byth ers hynny.

Bellach mae'n eiddo i Ymddiriedolaeth Ynys Enlli, gellir treulio cyfnod yno a threfnir teithiau diwrnod o'r Tir Mawr.

Mae'n gyrchfan i adarwyr gan ei fod yn denu adar prin iawn ar eu teithiau ymfudol.